**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/LG/0566/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

29 Gorffennaf 2019

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Rwyf yn ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn y tro hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn am mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw diwygiad syml i unioni diffygion sy'n codi am fod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 2 o Reoliadau 2019 yn gwneud darpariaeth berthnasol ac yn dileu'r cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE yn adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod osod cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried cymaint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, ni fyddaf i fy hun yn mynd ati i ysgogi dadl o'r fath.

Yn Gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales